Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Trwy ein sesiynau iaith a llythrennedd bydd disgyblion yn parhau i ddatblygu eu gallu i ddewis strategaethau ieithyddol i greu effaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig: gan edrych yn fanwl ar ddewisiadau, agoriadau brawddeg, defnydd o atalnodi cymhleth, geirfa helaeth (gan gynnwys geirfa bynciol) a chysyllteiriau. Bydd ystod eang o gyfleoedd darllen yn eu helpu i ddatblygu sgiliau darllen megis mynegiant, llithrddarllen, cipddarllen a chrynhoi a darllen rhwng y llinellau. Bydd disgyblion yn cael eu cefnogi i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio geiriadur, thesawrws a rhestri termau. Byddwn yn parhau i ymarfer llawysgrifen i sicrhau'r cyflwyniad gorau posibl. Bydd eich plentyn yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r cysylltiad rhwng ieithoedd gyda ffocws penodol ar ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Ffrangeg.

## Mathemateg a Rhifedd

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae'r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Hyd yn oed ym mlynyddoedd olaf y cynradd, rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at dduliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy'n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth wyddant neu beth helpodd ac i ddefnyddio dulliau amrywiol neu weithrediadau gwrth droi i wirio eu gwaith. *Am wybodaeth bellach, gweler y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysgol.*

## Thema

Ein thema y tymor yma yw 'Tyfu a Ffynnu.' Prif yrrwr bydd gwyddoniaeth a dyniaethau wrth esbonio nodweddion pethau byw, disgrifio sut mae cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd wedi newid dros amser, cymharu bwydydd o amgylch y byd. Byddwn yn ehangu gwybodaeth am faterion amgylcheddol megis  methan o da byw, olew palmwydd a chemegion gan nodi anghydraddoldebau yn ymwneud â bwyd yn y gorffennol a'r presennol. Byddwn hefyd yn cynllunio a chynnal ymchwiliad i mewn dyfiant a ffotosynthesis. Atodwyd georfa thema i gynorthwyo'ch plentyn adref. Yn ystod ein gwersi Celfyddydau Mynegiannol byddwn yn edrych ar printio sgrîn gan astudio gwaith Pop Art (e.e. Andy Warhol, Lichtenstein). Yn ein gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg byddwn yn astudio Cristnogaeth.

## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, hanner tymor 1 byddwn yn parhau i gael gwersi rygbi pob yn ail wythnos gyda'r  Dreigiau, ac session coedlan pob yn ail Dydd Llun. Yn ein sesiwn Ymarfer Corff arferol byddwn yn canolbwyntio ar sgiliau cydweithio mewn sefyllfa gem. Bydd gwersi lles yn ystod wrth gwblhau Jigso – Breuddwydion.

**Dosbarth: Branwen**

**Blwyddyn 6**

## Pethau i 'w Cofio

Llyfrau darllen adref **Dydd Gwener** ac yn ôl POB dydd Llun gyda chofnod.
Cit ymarfer corff pob **Dydd Iau**
Dillad coedlan pob yn ail **Dydd Llun** yn dechrau **20/01/25**
Rygbi Dreigiau pob yn ail **Dydd Llun** (un nesaf **27/01/25**)
Defnyddiwn Trydar (X) er mwyn danogs gwaith neu llwyddiannau





www.ysgolpenalltau.com    ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk    @penalltau    01443 862974